Darllenwch y geiriau ac yna tynnwch lun ohonynt.



wy

cyw

oen

het

bara

dail



Darllenwch y geiriau ac yna tynnwch lun ohonynt.



asyn

Iesu

capel

deor

basged

wyau

swper olaf

croes



blawd plaen cryf

powdwr sbeis cymysg

powdwr sinamon

menyn

burum sych

siwgwr brown

wy

llaeth

ffrwythau sych





Dyma restr siopa i brynu cynhwysion i goginio Bynen y Grog . Ydych chi'n gallu tynnu lluniau o'r cynhwysion er mwyn helpu Sali Mali a Jac Do?

Darllenwch y brawddegau'n ofalus a thynnwch lun i gyfateb.



Dyma'r cyw bach melyn.
Mae'r cyw yn dal wy Pasg pinc.

Dyma'r cwningen fach wen.
Mae'r cwningen yn dal wy Pasg coch.

Dyma'r oen bach du. Mae'r oen bach yn dal wy Pasg glas.

Dyma fi dwi'n dal wy Pasg. . .



Darllenwch y brawddegau'n ofalus a
thynnwch lun i gyfateb.

Dwi'n hoffi wy Pasg gyda phapur melyn a llun teigr.

Dwi'n hoffi wy Pasg gyda phapur coch a llun sêr.

Dydw i ddim yn hoffi wy Pasg. Dwi'n hoffi afal.



Dwi'n hoffi wy Pasg gyda phapur streipiog glas a melyn .

Dwi'n hoffi wy Pasg gyda phapur piws a llun deinosor.



Darllenwch y brawddegau'n ofalus a thynnwch lun i gyfateb.



Dyma fasged. Mae'r fasged yn frown.

Mae wy mawr coch gyda smotiau melyn yn y fasged.

Mae wy canolig lliw gwyrdd yn y fasged. Mae streipiau pinc ar yr wy gwyrdd.

Mae wy bach gyda llun cyw yn y fasged.

Mae bachgen a merch yn sefyll ar bwys y fasged. Mae'r ferch yn dal wy glas. Mae'r bachgen yn agor ei geg yn fawr yn barod i fwyta'r wyau.






**Cwestiynau am yr hysbyseb Helfa’r Pasg**

1. Beth mae'r poster yn dweud wrthym?
2. Pa ddyddiad mae’r Helfa’n digwydd?
3. Faint o’r gloch mae’r Helfa’n dechrau?
4. O ble mae angen casglu’r daflen cliwiau?
5. Beth ydy’r gost am ddau blentyn?
6. Beth sydd angen casglu? Pam?
7. Ble mae’r Helfa’n digwydd?
8. Beth sy’n digwydd os ydych yn casglu popeth?
9. Beth sydd angen i chi wisgo? Pam tybed?
10. A fyddech chi’n hoffi ymuno â’r Helfa Basg? Pam tybed?

Ydych chi’n gallu creu poster sy’n hysbysebu Helfa’r Pasg yn yr ysgol?



**Dathlu'r Pasg**

Ar ddydd Gwener cyn dydd Sul y Pasg rydym yn cofio am Iesu yn marw ar y groes.

Rydym yn bwyta bynen y grog neu 'hot cross bun' gyda siâp croes i gofio am Iesu'n marw.

Roedd ffrindiau Iesu wedi rhoi ei gorff i orwedd mewn bedd. Roedd carreg fawr o flaen y bedd.

Dydd Sul, sef dau ddiwrnod ar ôl i Iesu farw aeth ffrindiau Iesu at y bedd. Ond, roedd y bedd yn wag! Daeth angel at ei ffrindiau a dweud bod Iesu wedi dod 'nôl yn fyw.

Cyn hir daeth Iesu at ei ffrindiau. Roedden nhw wedi dychryn i ddechrau. Fe ddywedodd Iesu, "Peidiwch â bod ofn ffrindiau."

Dydd Sul y Pasg ydy'r diwrnod yma, rydym yn bwyta wyau siocled er mwyn dathlu bywyd newydd.



**Cwestiynau am ddathlu'r Pasg**

1.

## Bwyd a thraddodiad y Pasg

Cyn Pasg roedd Iesu wedi mynd heb fwyd am 40 diwrnod. Mae rhai pobl yn mynd heb siocled neu un math o fwyd am 40 diwrnod cyn Pasg i gofio am Iesu'n mynd heb fwyd.

Rydym yn galw'r amser yma yn Y Garawys.

Ers slawer dydd roedd pobl yn bwyta neu'n cael gwared â'r holl fwydydd melys a bwyd fel menyn ac wyau cyn dechrau'r Garawys. Roedden nhw'n gwneud pancws gyda'r holl gynhwysion. Dydd Mawrth Ynyd oedd y diwrnod arbennig yma.



Y wythnos cyn Pasg mae pobl yn cofio'r diwrnod aeth Iesu ar gefn asyn i mewn i Jerwsalem. Roedd pobl yn chwifio dail palmwydd er mwyn dweud croeso wrth Iesu.



## Cwestiynau

1. Pwy aeth heb fwyd am 40 diwrnod?
2. Pam fod rhai pobl yn mynd heb un math o fwyd am 40 diwrnod?
3. Pa fwyd byddet ti'n ei ddewis?
4. Beth ydy'r enw ar hyn?
5. Pa fath o fwydydd oedd pobl yn cael gwared â neu'n bwyta cyn y Garawys?
6. Beth ydy'r enw arbennig ar gyfer y diwrnod yma?
7. Pa dref oedd Iesu wedi ymweld â yr wythnos cyn y Pasg?
8. Pa fath o ddail oedd y bobl yn chwifio?
9. Sut oedd Iesu'n teimlo tybed?

